

Atodiad 1: Cynllun Gweithredu i gefnogi'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid

Amcan 1- Cynyddu Lefelau Cyfranogiad

Hoffai'r Cyngor annog cymaint o bobl ag y bo modd i gyfranogi.

Blaenoriaeth	Beth sydd angen i ni ei wneud? <i>CAM GWEITHREDU</i>	Beth ydym ni'n dymuno'i gyflawni? <i>CANLYNIAD</i>	Erbyn pryd
1A. Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi	Datblygu grŵp Facebook Gwasanaeth Tai y Cyngor	Cyrraedd at gynulleidfa ehangach o Denantiaid a Lesddeiliaid.	Parhaus
	Hyrwyddo argaeledd rhifyn digidol cylchgrawn Tŷ Agored ar gyfer tenantiaid trwy gyfrwng y wefan, Facebook ac ati.	Lleihau nifer y copïau papur i fod yn fwy ystyriol o'r amgylchedd ac i leihau costau.	Parhaus
	Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi trwy gyfrwng nifer o ddulliau yn cynnwys ar-lein, rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau lleol a sut i gyfranogi'n lleol h.y. cydweithio â Chydlynwyr Ardaloedd Lleol a staff Swyddfeydd Tai Ardal.	Sicrhau bod yr holl denantiaid yn ymwybodol o gyfleoedd i gyfranogi.	Parhaus
1B. Casglu adborth ynghylch sut gellir gwella dulliau o gyfranogi	Cynnal holiadur blynyddol ynghylch cyfranogiad tenantiaid trwy gyfrwng Tŷ Agored, Panel Ymgynghorol y Tenantiaid ac ar Gyfryngau Cymdeithasol.	Defnyddio canfyddiadau'r arolwg i gynyddu a gwella dulliau o gyfranogi.	Parhaus
1C. Gwella adborth a gwybodaeth i denantiaid	Bydd y Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid yn sicrhau yr ymatebir i'r holl gamau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd a bod tenantiaid yn cael adborth am faterion y byddant wedi'u mynegi	Bydd tenantiaid yn deall sut mae eu cyfranogiad wedi gwneud gwahaniaeth. Cynyddu lefelau cyfranogiad tenantiaid.	Parhaus

	Parhau i gynnal y Cyfarfod Rhwydweithio Blynyddol sy'n dod â'r holl grwpiau tenantiaid ynghyd i drafod eu cyflawniadau.	Datblygu sgiliau, cael gwybodaeth a diweddarau tenantiaid eraill am rôl a chynnydd grwpiau yn y ddinas a'r sir.	2019, 2020, 2021
--	---	---	------------------

Amcan 2 – Gwella gwasanaethau, tai ac ystadau.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan denantiaid gyfraniad allweddol i'w wneud at y gwaith o lywio cyfeiriad y Gwasanaeth Tai yn y dyfodol. Bydd safbwyntiau tenantiaid yn helpu i hysbysu gwelliannau parhaus a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn gost effeithiol.

Blaenoriaeth	Beth sydd angen i ni ei wneud? <i>CAM GWEITHREDU</i>	Beth ydym ni'n dymuno'i gyflawni? <i>CANLYNIAD</i>	Erbyn pryd
2A. Datblygu strategaeth a pholisïau newydd a phresennol	Ymgynghori â thenantiaid ynghylch datblygu polisïau newydd, e.e.: Y Strategaeth Tai Lleol, Y Strategaeth Rhenti Strategaeth Rheoli Ystadau a Gofalwyr ac ati	Ymgynghorir â thenantiaid ynghylch y strategaeth a'r polisi perthnasol a byddant yn cyfrannu atynt.	Parhaus
2B. Ymgynghori mewn perthynas â chyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a chyflawni'r Rhaglen Atgyweiriadau Cyfalaf	Parhau i ddiweddarau tenantiaid yn rheolaidd ynghylch Safon Ansawdd Tai Cymru a'r Rhaglen Atgyweiriadau Cyfalaf trwy gyfrwng grwpiau tenantiaid, cylchlythyrau, y wefan, cyfryngau cymdeithasol, ymweld ag unigolion yn eu cartrefi ac ati.	Hysbysir tenantiaid yn rheolaidd am gynnydd tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a chyflawni'r Rhaglen Atgyweiriadau Cyfalaf (gwaith ar gartrefi tenantiaid).	Parhaus
2C. Cyflawni argymhellion yn deillio o Swyddfa Archwilio Cymru	Gwella gwybodaeth ynghylch Safon Ansawdd Tai Cymru ac Ymgysylltu â Thenantiaid	Ymgynghorir â thenantiaid ynghylch gwybodaeth yn ymwneud â thaliadau tarfu, Safon Ansawdd Tai Cymru a'r Rhaglen Atgyweiriadau Cyfalaf.	Mae adborth o ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd gyda

	<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r Cyngor wella ar ei drefniadau cyfredol i roi cyhoeddusrwydd i drefniadau ar gyfer taliadau aflonyddwch i denantiaid mewn ffordd glir, ddealladwy a thryloyw, a sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o'r hyn y gallant ac na allant hawlio amdano. Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddull o ymgysylltu â'i denantiaid, gan gynnwys sicrhau bod tenantiaid yn glir ynghylch pam a phryd bydd gwaith yn cael ei wneud. 	<p>Cyhoeddi canfyddiadau'r arolwg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.</p> <p>Bydd y Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid yn cydweithio â Thîm Gwelliannau'r Gwasanaeth Tai ynghylch cynlluniau gwaith mawr.</p> <p>Gwella a diweddarau'r wybodaeth ar y wefan a'r dudalen Facebook newydd.</p>	<p>grwpiau Tenantiaid yn Ionawr 2019 yn cael ei ddefnyddio i wella hyn ymhellach.</p> <p>Parhaus</p>
2D. Ymgynghori ynghylch cyflawni gwelliannau amgylcheddol Safon Ansawdd Tai Cymru mewn ystadau	Defnyddio adborth gan denantiaid i helpu i nodi gwelliannau amgylcheddol mewn ystadau trwy gyfrwng rheoli ystadau a'r grŵp adeiladau ac atgyweiriadau ac arolygon perthnasol ac ati.	<p>Parhau i wella ymwybyddiaeth trwy gyfrwng grwpiau tenantiaid.</p> <p>Targedu adnoddau yn briodol.</p>	Parhaus
2E. Ystyried y cysyniad o gyd-gynhyrchu o fewn y Gwasanaeth Tai	Defnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu i ddatblygu'r Siarter Digartrefedd ac ystyried sut gellir ei ddefnyddio ymhellach.	Gwneud rhagor o welliannau i waith partneriaeth.	Yn ystod 2019, 2020, 2021
2F. Casglu adborth ynghylch sut caiff gwasanaethau eu darparu	Cynnal ymgynghoriad â thenantiaid fel rhan o adolygiad sylweddol o wasanaethau tai yn ystod 2018/19 i nodi pa welliannau y gellir eu gwneud i wasanaethau, cyswllt â chwsmeriaid, dulliau cyfathrebu ac ati.	Defnyddir Facebook i hysbysu canfyddiadau'r adolygiad a gwneud newidiadau i wasanaethau.	Parhaus

	Cynnal holiadur blynyddol ynghylch cyfranogiad tenantiaid trwy gyfrwng Tŷ Agored, Panel Ymgynghorol y Tenantiaid ac ar Gyfryngau Cymdeithasol.	Defnyddir canfyddiadau'r arolwg i hysbysu gwelliannau i'r gwasanaeth.	
--	--	---	--

Amcan 3 – Gwella sgiliau a gwybodaeth tenantiaid

Mae'n bwysig i denantiaid gael cyfleoedd i gyrchu gwybodaeth i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i gyfranogi.

Blaenoriaeth	Beth sydd angen i ni ei wneud? <i>CAM GWEITHREDU</i>	Beth ydym ni'n dymuno'i gyflawni? <i>CANLYNIAD</i>	Erbyn pryd
3a. Darparu cymorth ariannol i denantiaid sy'n dymuno mynychu Cynhadledd Tenantiaid Flynyddol TPAS Cymru	Parhau i ddarparu cymorth ariannol i denantiaid sy'n dymuno mynychu Cynhadledd Tenantiaid Flynyddol TPAS Cymru.	Bydd tenantiaid yn cael hyfforddiant ynghylch pynciau newydd ac yn gwella eu hymwybyddiaeth ohonynt, yn cynnwys materion cenedlaethol y gallant eu rhannu â grwpiau tenantiaid, Awdurdodau Lleol eraill a Chymdeithasau Tai. Cyfleodd i ddod i adnabod tenantiaid o sefydliadau eraill.	Tachwedd 2019, 2020, 2021
3B. Cynnal sesiynau gwella ymwybyddiaeth tenantiaid ar gyfer Panel Ymgynghorol y Tenantiaid ynghylch gwasanaethau tai allweddol, diwygio'r system lles a phynciau yn ymwneud â llesiant	Parhau i drafod ag adrannau mewnol/ asiantaethau allanol i ddarparu sesiynau addysgiadol ar gyfer tenantiaid ac ynghylch y pynciau hynny y bydd tenantiaid y gofyn am wybodaeth yn eu cylch. Cynnal sesiynau ynghylch pynciau a bennir gan denantiaid, yn cynnwys: Benthycwyr Arian Anghyfreithlon, Sgamiau, Troseddau Casineb, Dyledion, Credyd Cynhwysol, Baglu a	Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch diogelu, defnydd effeithlon o ynni, materion llesiant ac ati.	Parhaus

	Disgyn, cyngor ynghylch Ynni, Llinellau Cyffuriau, Deddf Rhentu Tai (Cymru).		
3C. Cynorthwyo'r Tîm Rhenti a'r Uned Cefnogi Tenantiaid i hyrwyddo gwasanaethau cyflogadwyedd yn lleol	Darparu gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth trwy gyfrwng grwpiau tenantiaid, y wefan a chyfryngau cymdeithasol.	Bydd tenantiaid yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau hynny sydd ar gael iddynt.	Parhaus

Amcan 4 – Gwella cyfranogiad yn y gymuned ehangach.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gydweithio â thenantiaid, preswylwyr a sefydliadau eraill sydd â nodau tebyg i rai'r Gwasanaeth Tai i gynorthwyo a gwella cymdogaethau.

Mae cyfranogi effeithiol gan denantiaid yn sicrhau buddion ehangach oherwydd mae'n helpu i ddatblygu ysbryd cymunedol ac yn sicrhau bod ystadau yn fannau ble mae pobl yn dymuno byw.

Blaenoriaeth	Beth sydd angen i ni ei wneud? <i>CAM GWEITHREDU</i>	Beth ydym ni'n dymuno'i gyflawni? <i>CANLYNIAD</i>	Erbyn pryd
4A. Cynyddu cyfleoedd i gyfranogi yn y gymuned	Hyrwyddo cyfranogiad ar draws y Gwasanaeth Tai, megis y Swyddfeydd Tai Ardal, a gyda sefydliadau eraill megis Cymdeithasau Tai lleol ac yng nghyfarfodydd rhwydwaith swyddogion TPAS, Cydlynwyr Ardaloedd Lleol ac ati.	Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfranogiad a digwyddiadau mewn cymunedau lleol a chyfleoedd i gyfranogi yn hynny.	Parhaus

<p>4B. Annog cyfranogiad grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, yn enwedig grwpiau BME, pobl ifanc a chymunedau gwledig</p> <p>Ymgysylltu â phobl ifanc</p>	<p>Cynnal arolwg ar y cyd â'r Grŵp Cyswllt Anableddau a'r Rhwydwaith BME i ganfod a oes unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau.</p> <p>Bydd sesiynau gan y Gwasanaeth Tai ynghylch digartrefedd a gwelliannau amgylcheddol yn cael eu rhedeg gan y Rheolwr Tai yn nigwyddiadau'r "Sgwrs Fawr".</p>	<p>Sicrhau cynnydd yn lefelau cyfranogiad cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.</p> <p>Canfod ac ystyried safbwyntiau pobl ifanc ynghylch materion tai presennol i helpu i ddylanwadu ar welliannau i'r gwasanaeth ac i gynorthwyo pobl ifanc.</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>
<p>4C. Parhau i wella ymwybyddiaeth staff o weithgareddau cyfranogiad tenantiaid.</p>	<p>Sicrhau bod staff newydd yn ymwybodol o'u rôl o safbwynt ymgysylltu â chymunedau trwy gyfrwng Cwrs Hyfforddiant Sefydlu'r Gwasanaeth Tai.</p>	<p>Bydd yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch cyfranogiad tenantiaid sy'n rhan o ofynion eu swyddi.</p>	<p>Parhaus</p>

